

Cronfa Bensiwn Dyfed

Polisi Cyfathrebu

Ionawr 2025

Cyflwyniad	3
Amcanion	3
Y Fframwaith Rheoleiddio	3
Cynrychiolaeth	4
Safonau'r Gymraeg	5
Diweddariadau ac Adroddiadau Rheolaidd	5
Dulliau darparu adborth.....	6
Cyfrifoldebau ac adnoddau.....	6
Sut rydym yn Cyfathrebu.....	6
Strategaeth Gyfathrebu.....	7
Hygyrchedd.....	7
Diogelu Data Aelodau	7
Proses Adolygu	9
Gwybodaeth Gyswilt	9

Cyflwyniad

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi ymrwymo i roi ar waith strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr sy'n sicrhau tryloywder, ymgysylltiad a boddhad aelodau. Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein dull cyfathrebu, sy'n cael ei arwain gan amcanion eglur, hygyrchedd ac ymatebolrwydd.

Amcanion

Prif amcanion ein polisi cyfathrebu yw:

- Darparu gwybodaeth glir, yn gryno ac yn amserol i'r holl randdeiliaid.
- Hyrwyddo dealltwriaeth ac ymgysylltiad ymhlith aelodau ynglŷn â'u buddion pensiwn.
- Hyrwyddo'r cynllun fel budd gwerthfawr a darparu gwybodaeth fel y gall aelodau wneud penderfyniadau gwybodus am eu buddion
- Darparu gwasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi gan yr holl aelodau, gan ymateb i'w hamgylchiadau personol sy'n eu cefnogi yn y broses o wneud penderfyniadau
- Darparu gwefan hygyrch a sicrhau bod fersiynau amgen o'r holl ddogfennau ar gael ar gais
- Datblygu effeithlonrwydd wrth ddarparu cyfathrebu gyda mwy o ddefnydd o dechnoleg a gweithio mewn partneriaeth
- Annog adborth a gwelliant parhaus yn ein dulliau cyfathrebu.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddiol ac arferion gorau wrth gyfathrebu am y gronfa bensiwn

Mae ein hymdrechion cyfathrebu wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau sy'n gysylltiedig â'r gronfa, gan gynnwys:

- Aelodau'r Cynllun sydd wedi'u rhannu'n dri grŵp penodol: Aelodau gweithredol, aelodau gohiriedig, pensiynwyr
- Darpar Aelodau'r Cynllun
- Cyflogwyr sy'n Rhan o'r Cynllun
- Staff y Gronfa
- Cyrff eraill:

Y Fframwaith Rheoleiddio

O 1 Ebrill 2014, roedd yn ofynnol yn ôl rheoliad 61 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) i awdurdodau gweinyddol wneud y canlynol '*....prepare, maintain and publish a written statement setting out their policy concerning communications with members; representatives of members, prospective members and Scheme employers.*'

Mae rheoliad 59 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2014, sydd mewn grym o 1 Ebrill 2014, yn datgan:

This regulation applies to the written statement prepared and published by an administering authority under regulation 61 of the Local Government Pension Scheme Regulations 2014.

The statement must set out its policy on-

- *The provision of information and publicity about the Scheme to members, representatives' members and Scheme employers.*
- *The format, frequency and method of distributing such information or publicity; and*
- *The promotion of the Scheme to prospective members and their employers.*

The statement must be revised and published by the administering authority following a material change in their policy on any of the matters referred to above.

Fel darparwr cynllun pensiwn galwedigaethol, mae'n ofynnol i ni hefyd fodloni gofynion Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) a deddfwriaeth arall, er enghraifft Deddf Pensiynau 2004.

Mae'r gofynion datgelu yn rhagnodol, ac yn canolbwyntio ar amserlenni yn hytrach nag ansawdd. Mae crynodeb o'n hamserlenni disgwylidiedig ar gyfer bodloni'r gwahanol ofynion datgelu gwybodaeth wedi'i nodi yn yr adran ar fesur perfformiad, ochr yn ochr â'r rhai a ddiffinnir gan y Rheoliadau Datgelu.

Bydd unrhyw gyfathrebu bob amser yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Cynrychiolaeth

Cyngor Sir Caerfyrddin yw Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Dyfed gyda'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn Lleol, gyda chefnogaeth Tîm Rheoli'r Gronfa Bensiwn ac amrywiaeth o ymgynghorwyr allanol, yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am weinyddu swyddogaethau'r Awdurdod Gweinyddu.

Y Pwyllgor Pensiynau

Yn unol â chyfansoddiad Cyngor Sir Caerfyrddin, mae'n rhaid sefydlu pwyllgor pensiwn ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed i wneud y canlynol:

- penderfynu ar yr holl faterion o ran polisi a'r cyfeiriad strategol sy'n ymwneud â buddsoddiadau'r Gronfa.
- adolygu a monitro perfformiad buddsoddi'r Gronfa.
- adolygu a phenderfynu ar holl faterion y Gronfa sy'n ymwneud â Phrisio'r Gronfa Bensiwn.
- penderfynu ar faterion strategol a pholisi'r Awdurdod ynglŷn â Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:

- tri aelod, (un yn Gadeirydd) yn ogystal â dirprwy a enwebwyd i weithredu yn absenoldeb un o'r aelodau. Mae gan bob un o aelodau'r Pwyllgor hawl i bleidleisio ac enwebir pob un aelod o'r Pwyllgor a'r dirprwy gan Gyngor Sir Caerfyrddin, sef yr Awdurdod Gweinyddu, a hynny o blith ei aelodau etholedig. Mae'n rhaid i o leiaf dri aelod fod yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn cael ei gefnogi gan:

- Swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn.

Y Bwrdd Pensiwn

Mae'r Bwrdd Pensiwn yn gyfrifol am gynorthwyo'r Awdurdod Gweinyddu a bydd yn cyflawni'r canlynol fel rôl oruchwylio:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac unrhyw ddeddfwriaeth arall mewn perthynas â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun ac unrhyw gynllun sy'n gysylltiedig ag ef; ac unrhyw ofynion a nodir gan y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â'r Cynllun a
- Sicrhau bod y Cynllun yn cael ei lywodraethu a'i weinyddu'n effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys:

- 3 Chynrychiolydd Aelodau;
- 3 Chynrychiolydd Cyflogwyr;
- 1 Cadeirydd Annibynnol

Safonau'r Gymraeg

Rhaid i Gronfa Pensiwn Dyfed ddarparu a gweithredu gan sicrhau nad yw'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â hyn, mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn cadw at [Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg \(Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#). Mae'r hysbysiad yn cynnwys 174 o gyfarwyddiadau ar sut y bydd y Cyngor yn cyflenwi gwasanaethau Cymraeg, llunio polisi mewn modd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg a chadw cofnodion ynglŷn â'r Gymraeg. Mae gan y cyhoedd hawl i gwyno os ydynt yn teimlo nad yw'r cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau, ac mae'r Cyngor yn cynhyrchu Cynllun Gweithredu Blynnyddol ac Adroddiad i ddarparu gwybodaeth am y gydymffurfiaeth honno.

Diweddariadau ac Adroddiadau Rheolaidd

Er mwyn cynnal tryloywder a sicrhau gwybodaeth ddigonol i'r aelodau, rydym yn ymrwymo i ddarparu diweddariadau ac adroddiadau rheolaidd, gan gynnwys:

- Adroddiadau Blynnyddol: Adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar berfformiad y gronfa, newidiadau mewn rheoliadau, a gwybodaeth berthnasol arall.
- Llythyrau Newyddion Blynnyddol: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r gronfa, digwyddiadau i ddod, a dyddiadau cau pwysig.
- Datganiadau Aelodau: Datganiad blynnyddol o'r buddion i amlinellu hawliau aelodau unigol a buddion arfaethedig.

Dulliau darparu adborth

Rydym yn gwerthfawrogi adborth aelodau gan ei fod yn ein helpu i wella ein gwasanaethau a'n strategaethau cyfathrebu. Mae dulliau darparu adborth yn cynnwys y canlynol:

- Mae arolygon a holiaduron wedi'u cynnwys gyda llythyrau sy'n gofyn am ymateb, fel llythyrau ymddeol.
- Blychau mewn digwyddiadau i aelodau roi awgrymiadau.

Mae adborth yn cael ei adolygu ar sail unigol a gweithredir ar yr adborth os yw'n bosibl ac os nad yw'n gwrthdaro â rheoliadau a pholisïau.

Cyfrifoldebau ac adnoddau

Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r Awdurdod Gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed. Y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gyfathrebu, gyda chefnogaeth y Rheolwr Pensiwn a'r Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddiant.

Mae'r holl gyfathrebu, gan gynnwys unrhyw ddeunydd ar y we neu electronig, yn cael ei ddatblygu gan y Tîm Gweinyddu Pensiynau. Y Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddiant sydd â'r cyfrifoldeb craidd gan weithio ar y cyd â nifer o sefydliadau allanol a thimau Cyngor Sir Caerfyrddin.

Sut rydym yn Cyfathrebu

Mae'r Gronfa yn ymdrechu i ddatblygu a gwella ei ddulliau cyfathrebu a phrofiad cyffredinol yr aelodau. Rydym yn dysgu yn barhaus drwy gyfrwng dadansoddeg gwefan am yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n denu cymaint o ryngweithio. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu datblygu ein cyfathrebu, yn unol â hynny, gan ychwanegu mwy o adnoddau lle bo angen.

Rydym wedi datblygu gweminarau wedi'u teilwra, yn seiliedig ar bynciau ac rydym yn ymgynghori ag aelodau a chyflogwyr y Gronfa ar y cynnwys a chyflwyno sesiynau newydd sy'n cael eu llywio trwy arolygon cwsmeriaid. Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno ffurflenni ar y wefan i ymgysylltu â chyflogwyr llai, gan eu galluogi i gofrestru ar gyfer cyrsiau 'Cyn Ymddeol' a 'Dechreuwr Newydd' yn hwylus.

Gellir cyrchu ein gwefan a'n cyfleuster gweborth, Fy Mhensiwn Ar-lein ar unrhyw ddyfais sy'n golygu bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth ar unrhyw ffôn symudol

neu lechen mewn fformat hawdd ei ddarllen, gall ein haelodau chwilio am wybodaeth neu gael mynediad at offer ar-lein ar adegau sy'n gyfleus i'r aelod. Yn 2024 fe wnaethom gyflwyno fideos â chapsiynau ar y wefan er mwyn darparu hygrychedd ychwanegol i wybodaeth.

Rydym yn parhau i ymgysylltu ag aelodau trwy sawl sianel i sefydlu barn ar sut y mae ein haelodau am gyfathrebu a rhyngweithio â'r Gronfa. Gall aelodau ddewis eu hoff gyfrwng.

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn cyflwyno gweminarau wyneb yn wyneb 'Cyn Ymddeol' a 'Dechreuwr Newydd' i sicrhau y gallwn ymgysylltu â'r holl aelodau. Rydym yn sicrhau bod staff nad oes ganddynt fynediad at dechnoleg yn gallu cael yr un gwasanaeth ag eraill.

Strategaeth Gyfathrebu

Nod Pensiwn Dyfed yw parhau i wella ein cyfathrebu er mwyn ymgysylltu'n well â'n haelodau ar gyfer ein cynulleidfa darged. Yn benodol, ein nod yw gwella ein gwefan a chyfathrebiadau Fy Mhensiwn Ar-lein drwy e-ffurflenni. Bydd sawl math o gyfrwng yn cael ei ddefnyddio i sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod eang o aelodau. Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn cyflwyno ein cyfathrebiadau mewn iaith eglur i gynyddu hygrychedd wrth barhau i gyfleu'r wybodaeth sydd ei hangen. Bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn parhau i ddefnyddio adborth aelodau i gyflwyno cyfathrebiadau perthnasol, diddorol ac amserol. Nod Cronfa Bensiwn Dyfed yw meintioli cyfathrebiadau, er enghraifft: faint o negeseuon e-bost sydd wedi'u hagor. sawl 'clic' a geir ar ddolenni ac ar y wefan. Bydd y Gronfa yn defnyddio'r mesur meintiol hwn i nodi diffygion cyfathrebu, sut i wella a datblygu strategaethau newydd i sbarduno ymgysylltu o ansawdd.

Hygrychedd

Mae ein gwefan yn cydymffurfio'n rhannol â **Rheoliadau Hygrychedd Cyrff y Sector Cyhoeddus (Gwefannau ac Apiau Symudol) (Rhif 2) 2018**. Mae Cronfa Bensiwn Dyfed wedi ymrwymo i wneud ei gwefan yn hygrych, yn unol â'r rheoliadau hyn a bydd yn parhau i gyhoeddi ein cydymffurfiaeth. Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn parhau i weithio tuag at **Ganllawiau Hygrychedd Cynnwys Gwefan (WCAG) 2.2** i ddarparu set gynhwysfawr o argymhellion i wneud cynnwys y wefan yn fwy hygrych i bobl ag anableddau. Mae'r canllawiau hyn yn cwmpasu anableddau amrywiol, gan gynnwys dallineb, golwg gwan, byddardod, colli clyw, symudiad cyfyngedig, anableddau lleferydd, goleusensitifrwydd, a chyfyngiadau gwybyddol. Mae dilyn y canllawiau hyn nid yn unig yn gwella hygrychedd ond hefyd yn gwella defnyddioldeb cyffredinol cynnwys y wefan i bob defnyddiwr.

Diogelu Data Aelodau

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn Rheolwr Data o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Mae hyn yn golygu ein bod yn storio, cadw a rheoli data personol yn unol â gofynion statudol i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau gweinyddu pensiynau i aelodau. Er mwyn ein

galluogi i gyflawni ein dyletswydd statudol, mae'n ofynnol i ni rannu gwybodaeth gyda chyrrff penodol ond dim ond mewn amgylchiadau penodol y byddwn yn gwneud hynny.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn cadw data, gyda phwy rydyn ni'n ei rannu a pha hawliau, mae'n rhaid i'n haelodau ofyn am wybodaeth gan y Gronfa, darllenwch ein [polisi preifatrwydd llawn](#).

Mesur Perfformiad

Prydlondeb

Byddwn yn mesur yn erbyn yr amserlenni cyflawni targedau canlynol:

Cyfathrebu	Y Gynulleidfa	Cyfnod cyflawni statudol
Canllaw byr y cynllun	Aelodau newydd sy'n ymuno â'r Gronfa	O fewn dau fis ar ôl ymuno
Amcangyfrif o Ddatganiadau Buddion Blynnyddol ar 31 Mawrth	Aelodau sy'n cyfrannu ac aelodau gohiriedig	31 Awst bob blwyddyn
Cyhoeddi buddion ymddeol (ar oedran pensiwn arferol)	Aelodau sy'n cyfrannu sy'n ymddeol	O fewn un mis ar ôl ymddeol
Cyhoeddi buddion ymddeol (ymddeoliadau cynnar)	Aelodau sy'n cyfrannu sy'n ymddeol	O fewn dau fis ar ôl ymddeol
Cyhoeddi buddion gohiriedig	Ymadawyr	O fewn dau fis ar ôl hysbysu
Trosglwyddiadau i mewn	Rhai sy'n ymuno ac aelodau sy'n cyfrannu	O fewn dau fis i'r cais
Trosglwyddiadau allan	Ymadawyr ac aelodau gohiriedig	O fewn dau fis i'r cais
Newidiadau i reolau'r cynllun	Aelodau sy'n cyfrannu ac aelodau gohiriedig a phensiynwyr, yn ôl yr angen	O fewn tri mis o'r newid yn dod i rym
Adroddiad Blynnyddol a Chyfrifon y Gronfa Bensiynau	Pob un	O fewn dau fis i'r cais
Slipiau cyflog pensiynwyr	Pensiynwyr	Hysbysiadau ar-lein cyn y dyddiad talu Rhaid anfon copïau papur ddau ddiwrnod cyn y dyddiad talu
Adroddiad Blynnyddol	Pob Rhanddeiliad	1 Rhagfyr bob blwyddyn

Ansawdd

Rydym yn defnyddio ystod o ddulliau i fonitro ansawdd ein cyfathrebu sy'n cynnwys arolygon, grwpiau ffocws a gweithgarwch ar wefannau. Mae ein holl gyhoeddiadau a'n

gwefan yn cynnwys gwahoddiad i gynnig sylwadau ar y cynnwys ac awgrymiadau ar gyfer rhifynnau yn y dyfodol a darperir manylion cyswllt.

Proses Adolygu

Bydd y Polisi Cyfathrebu yn cael ei adolygu bob dwy flynedd i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y gynulleidfa a gofynion rheoleiddio. Cymeradwywyd y Polisi Cyfathrebu gan y Pwyllgor Pensiynau ar Mehefin 2025 a bydd yn cael ei adolygu yn 2027.

Gwybodaeth Gyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am ein polisi cyfathrebu, neu os oes ganddynt ymholiadau, anogir aelodau i gysylltu â ni drwy:

E-bost	pensiynau@sirgar.gov.uk
Ffôn	01267 224 893
Swydd	Cyngor Sir Caerfyrddin Neuadd y Sir Caerfyrddin SA31 1JP